# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY
# GORCHYMYN AMDDIFFYN MANNAU CYHOEDDUS

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona 2014
(Pennod 2)

## Yr ardal a adnabyddir fel “Llwybr y Mul”, Promenâd, Bae Colwyn

Rhoddir rhybudd drwy hyn fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (“y Cyngor), drwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 59, 63 a 72 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (”y Ddeddf”) ac o dan yr holl bwerau galluogi eraill, drwy hyn yn bwriadu gwneud y gorchymyn canlynol:

1. Mae'r Gorchymyn yn ymwneud â'r ardal a ddisgrifir yn yr atodlen isod ("yr Ardaloedd Cyfyngedig") ac fel y dangosir ar y cynllun atodol

2. Gellir cyfeirio at y gorchymyn hwn fel Gorchymyn Amddiffyn Mannau Cyhoeddus Llwybr y Mul, Bae Colwyn 2017 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, a daw i rym ar [24 Awst 2017] am gyfnod o 3 blynedd, oni bai ei fod yn cael ei ymestyn gan Orchmynion pellach o dan bwerau statudol y Cyngor

3. Effaith y Gorchymyn yw gosod yr amodau canlynol o fewn yr Ardaloedd Cyfyngedig:

   **(i) Fod personau 17 oed ac iau, nad ydynt o dan reolaeth effeithiol rhiant neu oedolyn cyfrifol sy’n 18 oed neu’n hŷn, yn cael eu gwahardd rhag cwrdd mewn grwpiau o 3 neu fwy yn yr Ardal Gyfyngedig. Dim ond os yw unrhyw un o’r grŵp yn achosi aflonyddwch, braw neu ofid i berson arall bydd y gwaharddiad yn berthnasol.**

   **(ii) Fod ymddwyn mewn modd sy’n achosi neu sy’n debygol o aflonyddu, dychryn neu ofid i berson arall wedi ei wahardd yn yr Ardal Gyfyngedig.**

   **(ii) Fod achosi gormod o sŵn neu sŵn afresymol yn cael ei wahardd yn yr Ardal Gyfyngedig**

   **(iii) Fod yfed alcohol neu fod â chynwysyddion agored o alcohol yn eich meddiant wedi ei wahardd yn yr Ardal Gyfyngedig.**

**Atodlen o’r ardaloedd cyfyngedig**

Yr ardal ar y map atodol yw:

Yr holl fannau cyhoeddus yn yr ardal a adnabyddir fel Llwybr y Mul, am ei hyd o’r gyffordd o’r promenâd ym Mae Colwyn yn arwain at Nant Eirias, hyd at Orsaf Reilffordd Bae Colwyn.

Atodir drafft o’r gorchymyn arfaethedig. Gellir gweld manylion pellach a rhesymau dros wneud y gorchymyn yn ystod oriau swyddfa arferol yn y Swyddfeydd Dinesig, Bae Colwyn, drwy drefniant o flaen llaw. Mae’r gorchymyn arfaethedig hefyd wedi ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. www.conwy.gov.uk

Os hoffech wneud sylwadau am y gorchymyn arfaethedig, gwnewch hynny yn ysgrifenedig os gwelwch yn dda erbyn 23 Awst 2017, gan nodi’r rhesymau dros eich gwrthwynebiad, a’u hanfon ar e-bost at SaferConwy@conwy.gov.uk neu drwy’r post at Bennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Abergele, Bae Colwyn LL29 8AR.

Dyddiedig y 25 Gorffennaf 2017



……………………………………………….
Peter Brown (Pennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai)

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY
# GORCHYMYN AMDDIFFYN MANNAU CYHOEDDUS

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona 2014
(Pennod 2)

## Yr ardal a adnabyddir fel “Llwybr y Mul”, Promenâd, Bae Colwyn, Conwy

Gellir cyfeirio at y gorchymyn hwn fel Gorchymyn Amddiffyn Mannau Cyhoeddus Llwybr y Mul, Bae Colwyn 2017 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ("y Cyngor"), yn cael ei fodloni bod yr amodau a nodir yn Adran 59 (2) Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona 2014 ("y Ddeddf") wedi cael eu bodloni mewn perthynas â'r ardal a ddynodwyd gan y map atodol a adnabyddir fel Llwybr y Mul o orsaf reilffordd Bae Colwyn i’r gyffordd am Nant Eirias oddi ar bromenâd Bae Colwyn, sef bod y gweithgareddau a gyflawnir mewn man cyhoeddus o fewn ardal yr awdurdod wedi achosi trosedd, anhrefn ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn yr ardal leol. Mae’r gweithgareddau hyn wedi cael neu yn debygol o gael effaith niweidiol ar safon bywyd pobl yr ardal leol, a’r rhai sy'n ymweld â'r ardal fel lleoliad twristaidd. Mae'r Cyngor hefyd yn fodlon bod yr effaith, neu effaith debygol, o'r gweithgareddau yn, neu'n debygol o fod yn barhaus neu o natur barhaus, ac mae’r gweithgareddau’n afresymol ac yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn a'i fod yn yr holl amgylchiadau sy’n fuddiol i wneud y Gorchymyn hwn at y diben o leihau troseddu a/neu ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn man cyhoeddus.

Drwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 59 y Ddeddf ac o dan yr holl bwerau galluogi eraill, mae’r Cyngor drwy hyn yn gwneud y gorchymyn canlynol:

**(1)** **Fod personau 17 oed ac iau, nad ydynt o dan reolaeth effeithiol rhiant neu oedolyn cyfrifol sy’n 18 oed neu’n hŷn, yn cael eu gwahardd rhag cwrdd mewn grwpiau o 3 neu fwy yn yr Ardal Gyfyngedig. Dim ond os yw unrhyw un o’r grŵp yn achosi aflonyddwch, braw neu ofid i berson arall bydd y gwaharddiad yn berthnasol.**

**(2)** **Fod ymddwyn mewn modd sy’n achosi neu sy’n debygol o aflonyddu, dychryn neu ofid i berson arall wedi ei wahardd yn yr Ardal Gyfyngedig.**

**(3)** **Fod achosi gormod o sŵn neu sŵn afresymol yn cael ei wahardd yn yr Ardal Gyfyngedig**

**(4)** **Fod yfed alcohol neu fod â chynwysyddion agored o alcohol yn eich meddiant wedi ei wahardd yn yr Ardal Gyfyngedig.**

**Mae’n drosedd i unigolyn heb esgus rhesymol gymryd rhan mewn gweithgaredd sydd wedi ei wahardd gan y Gorchymyn hwn. Mae unigolyn sy’n torri’r Gorchymyn hwn yn atebol ar gollfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol neu i Rybudd Cosb Benodedig hyd at £100.**

Bydd y Gorchymyn yn dod yn weithredol ar 24 Awst 2017 a bydd mewn grym am gyfnod o 3 blynedd wedi hynny, os nad yw’n cael ei ymestyn ymhellach gan Orchmynion pellach o dan bwerau statudol y Cyngor.

Os yw unrhyw berson â buddiant yn cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn hwn ar y sail nad oedd gan y Cyngor y pŵer i wneud y Gorchymyn neu i gynnwys unrhyw waharddiadau neu anghenion penodol a osodir gan y Gorchymyn hwn neu nad yw amodau’r Ddeddf wedi eu bodloni, yna gallant ymgeisio i’r Uchel Lys o fewn 6 wythnos o’r dyddiad y gwnaed y Gorchymyn.

Dyddiedig y 2017

…………………………………………………
Peter Brown (Pennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai)